ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

PROSIECT WICKED

IONAWR – EBRILL 2010.
CRYNODEB GWEITHREDOL

TIR COED

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

1. Trosolwg o Weithgareddau Tir Coed:

1. Dan arweiniad yr ysgrifennydd, John Wilding, a gyda chefnogaeth rheolaidd y Cadeirydd, Simon Hewitt, bu Criw Tir Coed yn cyfarfod yn fisol i drafod cynnydd a materion cyfredol. Bu John a Simon hefyd yn cynrychioli Tir Coed mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd. Hoffai'r staff ddiolch i Simon a John yn arbennig am eu cefnogaeth diflino dros gyfnod Prosiect WICKED; hoffem ddiolch hefyd i Ymddiriedolwyr Tir Coed am eu harweiniad a'u hanogaeth.

2. Mynychodd Becky gymhorthfa gan Menter a Busnes ar safwe GwerthwchiGymru, y porthol caffael ar gyfer cyfleoedd tendro. Bu arweiniad Llinos Price yn ddefnyddiol iawn, wrth iddi ddangos i Becky sut i ddiweddaru proffil Tir Coed er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn hysbysiadau perthnasol.

3. Cyfarfodd staff Tir Coed â Gareth Wardell a fu'n dangos iddynt sut i gyrchu arian yn y sector breifat. Cynigodd Gareth y dylai Tir Coed gyflwyno ei gwaith i gwmnïau mawrion, megis Tesco, o safbwynt eu cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau corfforaethol. Cynigwyd bod mynd at gwmnïau ynni, yn enwedig rhai sydd yn datblygu ffermydd gwynt yng Nghymru, yn gyfle arall am arian. Bydd Gwyneth yn ymchwilio'r posibiliadau hyn dros y misoedd nesaf.

4. Mynychodd Gwyneth ddigwyddiad paratoadol ar raglen Porth Ymgysylltu ardal Cystadleurwydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (sydd yn cynnwys Powys). Mae Tir Coed yn bwriadu gweithio gyda'r rhaglen hon er mwyn parhau'r gwaith gyda ieuenctid ym Mhowys.

5. Mynychodd John ddigwyddiad partneriaeth â drefnwyd gan Working Links. Mae Working Links yn trefnu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer pobl sydd yn anweithredol yn economaidd, gobeithiwyd y byddai cyfle i gomisiynu Tir Coed i ddarparu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ieuenctid.
   Er y gobaith, daeth yn amlwg yn ystod y digwyddiad na fyddai Tir Coed yn ennill yn ariannol o ymwneud â'r rhaglen; hefyd roedd baich y polisïau a'r gweithdrefnau yn llawer rhy drwm ar gyfer mudiadau bychain fel ni.

6. Mynychodd Becky a Gwyneth gynhadledd CGCC yng Nghaerdydd. Testun y cyfarfod oedd 'Hybu Cyfranogaeth Economaidd', sydd yn berthnasol i brosiect Egin Tir Coed, a ddaw i ganlyn WICKED. Bu'r gynhadledd yn agoriad llygad i'r ddwy Swyddog Prosiect ar raglenni cyfoes a'r dyfodol ar gyfer prosiectau ieuenctid yng Nghymru a ariennir gan Ewrop. Yn anffodus, daethant adref o'r gynhadledd gyda'r argraff bod llawer o'r arian sydd ar gael yn cael ei golli mewn gweinyddiaeth, a byddai'r rhaglenni, gyda llawer o amodau llym ynghlwm â nifer ohonynt, ddim yn cael llawer o effaith ar gyflwr bywyd ieuenctid yng Nghymru.

7. Bu Gwyneth yn cyfarfod gydag aelodau o dîm Adfywio Economaidd Cyngor Sir Ceredigion. Er nad oedd cais Tir Coed i Echel 3 o'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi bod yn llwyddiannus, gall fod yna gyfleoedd i ymwneud â gweithgareddau Echelin arall – yn ymwneud â chyfranogiad cymdeithasol. Mae'r cynigion yn cael eu hystyried gan LlCC ar hyn o bryd, a disgwyliwn y canlyniadau yn eiddgar.

8. Mynychodd Becky gyfarfod Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu ym mis Chwefror. Roedd hwn yn gyfle i ddarganfod mwy o wybodaeth ar y Fforwm, i fwydo syniadau i'w cynlluniau ac i rwydweithio gyda mudiadau eraill ym maes addysgu coetirol. Mae Tir Coed yn bwriadu mynychu'r cyfarfodydd chwarterol hyn yn rheolaidd.

9. Mynychodd John gyfarfod o grŵp llywio Coed Lleol ar ran Tir Coed. Ail gyflwynwyd astudiaeth cwmpasu Coed Lleol ar yr angen am brentisiaethau coetirol i'r Comisiwn Coedwigaeth; dylai ei gyhoeddi yn derfynol yn fuan.
Cynrychiolir Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, ynghyd â nifer o fudiadau coetirol eraill, ar y grŵp llywio, felly mae mynychu'r cyfardfodydd yn ddull defnyddiol o ddiweddaru ein gwybodaeth ar ddatblygiadau cyfoes yn y maes.

10. Agored Cymru (Rhwydwaith Coleg Agored, OCN):

a) Mynychodd Becky weithdy ysgrifennu unedau Agored Cymru yn Rhydaman. Roedd y gweithdy yn ddefnyddiol iawn, a bydd y pecyn gwybodaeth a roddwyd allan yn gymorth i'r holl staff.
b) Mae Angie wedi ennill ei Statws Dilysydd Mewnol Agored Cymru (AVIS); golyga hyn y bydd yn medru arwyddo 'Argymhelliad i Wobrwyo Credyd' Agored Cymru heb yr angen am gymeradwyaeth Dilysydd Allanol.
c) Dyluniwyd gweithlyfrau ar gyfer yr unedau Agored Cymru canlynol:
"Cyflwyniad i Brysgoedio" &
"Crefft Coed – Gweithio & Gorffen Dyluniad Pren Syml".
Golygwyd gweithlyfr "Sgiliau Gweithio Tîm".

d) Datganodd Tir Coed diddordeb mewn edrych ar y posibiliad o drefnu partneriaethau gyda chanolfannau llai, gan gynnig i fod yn "Brif Ganolfan" a chymeryd gofal o brosesau gweinyddol a phrosesau safon Agored Cymru.

e) Cyflawnodd Tir Coed ei Hadolygiad Dilysu Allanol a Safonau Blynyddol Agored Cymru yn ddiweddar. Bu'r adborth o'r ddau adolygiad ar safon gweithredu Tir Coed o achrediadau Agored Cymru yn gadarnhaol iawn.

11. Rydym wedi derbyn cadarnhad o gyllidebau yn dilyn ceisiadau llwyddiannus o'r canlynol:

Tudor Trust (2010 – 2013),
Comisiwn Coedwigaeth Cymru (2010 – 2013),
GwirVol Youth Volunteering (2010-11),
Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm (2010-11).

Hefyd, bu Tir Coed yn llwyddiannus yn ei thendr i Cymunedau a Natur, rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop (2010 – 2013), a Rhaglen Porth Ymgysylltu Cronfa Gymdeithasol Ewrop (2010 – 2012).
Mae Tir Coed yn aros am gadarnhad terfynol gan CCGC ar gyfer cyllideb 2010-11, ond rydym wedi derbyn sicrwydd y bod hwn ar y gweill.

Mae'r uchod yn sicrhau bod etifeddiaeth WICKED yn parhau ac y bydd y gwersi a ddysgwyd yn medru cael eu trosglwyddo yn uniongyrchol i Brosiect EGIN, rhaglen datblygu sgiliau personol a galwedigaethol newydd Tir Coed.

2. Gweithgareddau yn y deuddegfed chwarter wedi eu rhestri dan fentrau unigol prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun MÊS

(Gweithgareddau seibiant i Ofalwyr Ifanc)

Mae'r arian o Comic Relief ar gyfer gweithgareddau i ofalwyr ifanc nawr wedi dod i ben. Oherwydd y diffyg ariannol hyn, ni fu yna lawer o weithgareddau MÊS yn ystod y cyfnod hwn.
Fodd bynnag, gyda chyllideb arall, a gafwyd o Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, darparodd Tir Coed weithgaredd breswyl MÊS yng Nghanolfan Staylittle ym Mhowys. Daeth 30 gofalwr ifanc, o 12 mlwydd oed i fyny, at ei gilydd o Geredigion a Phowys, er mwyn rhannu profiadau newydd tra'n mwynhau seibiant o'u dyletswyddau gofal.
Yn anffodus, oherwydd prinder adnoddau staffio, ni fedrodd criw gofalwyr ifanc Sir Gaerfyrddin ymuno â ni.

Cynigwyd dwy prif weithgaredd i'r ieuenctid:
Abseilio ar wyneb hen chwarel ger Llyn Clywedog; a
creu mainc gerfiedig ar gyfer canolfan Staylittle.

Arweiniwyd y weithgaredd o greu'r fainc gan Patrick Harrison a Colin Titley. Llogwyd Neuadd Bentref Staylittle gerllaw a'i drawsnewid yn weithdy gyda nifer o gesig llyfni a chyfleoedd i lifio a cherfio pren.

Mae'r fainc wedi ei lleoli ger ardal Saethyddiaeth a Chyrsiau Rhwystrau y Ganolfan, felly bydd yn cael llawer o ddefnydd gan ymwelwyr wrth iddynt wylio ac aros eu tro ar gyfer y gweithgareddau.
Mae'r lleoliad yn wych, ar y man uchaf ar dir y ganolfan, gan gynnig golygfeydd panoramig dros gwm y Clywedog.

<u>Allbynnau Menter Mês:</u>
Er nad yw Tir Coed wedi derbyn cyllideb bellach i weithio gyda gofalwyr ifanc yn uniongyrchol, mynychodd un aelod o staff Ceredigion a dau aelod o staff Powys Hyfforddiant Staff Cynorthwyol Tir Coed gan dderbyn 2 uned RhCA. Bydd hyn yn galluogi iddynt barhau gyda'u gweithgareddau awyr agored gyda'r gofalwyr ifanc yn y dyfodol.

Mae pob criw o ofalwyr ifanc wedi datblygu cysylltiadau gyda choetiroedd a Thiwtoriaid lleol, a gallant adeiladu ar y sylfaen hwn yn y dyfodol.

Bydd gofalwyr ifanc hŷn, sydd yn methu gweithio oherwydd eu dyletswyddau gofal, yn medru ymwneud â phrosiect Egin newydd Tir Coed.

b) Menter GWEITHIO'R GOEDWIG

(Ar gyfer ieuenctid 16 i 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, swydd, nac hyfforddiant.)

Powys

Cynhaliwyd prif raglen Gweithio'r Goedwig ym Mhowys ym mis Hydref 2009 ac fe adroddwyd ar hyn mewn adroddiad blaenorol.
Mae tri o'r prentisiaid wedi parhau i ymwneud â Thir Coed, gan fynychu'r prosiect Mentora Gwirfoddolwyr wythnosol yn ardal Y Drenewydd.

Ceredigion:

Bu Tîm 7 Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru Ceredigion yn gyfrifol am gyflawni prosiect 3 diwrnod yn ddilyniant i brosiect Gweithio'r Goedwig yr Hydref diwethaf pan grëwyd Theatr Goedwig ar gyfer Coedwig Gymunedol Long Wood.

Gosodwyd yr her o derasu'r llethr ger y theatr er mwyn creu man i'r gynulleidfa eistedd ac o adeiladu 2 fainc gan ddefnyddio sgiliau trin pren traddodiadol.

Roedd Arweinydd Tîm Ymddiriedolaeth y Tywysog, Simon Griffiths (Plismon ar secondiad), hefyd yn cyfranogi mewn Hyfforddiant Gweithwyr Cynorthwyol Tir Coed. Galluogodd y prosiect hwn iddo gyflawni ei ddwy uned Lefel 2 Agored Cymru; Cynllunio & Darparu Rhaglen Awyr Agored a Sgiliau Ymarferol mewn Ardaloedd Awyr Agored. Roedd Simon yn gyfrifol am reoli'r safle a'r cyfranogwyr gyda chymorth Tony Eames yn darparu'r arbenigedd trin pren.

Dangosodd y criw agwedd adeiladol tuag at ei gwaith o'r cychwyn cyntaf, gan ddatblygu ystod eang o sgiliau ymarferol gydag ychydig iawn o anogaeth. Cyflawnwyd pob tasg a osodwyd, wrth i'r criw gydweithio yn ardderchog.

Allbynnau:
Trwy gydol prosiect WICKED, datblygwyd cysylltiadau adeiladol iawn gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru ac mae yna fawr obaith y bydd yna fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio partneriaethol yn y dyfodol.

O ganlyniad i hyfforddiant Tir Coed, bydd gweithwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog nawr yn medru cynnal criwiau mewn gweithgareddau coetirol tebyg yn y dyfodol.

Sir Benfro:

Cynhaliwyd prif raglenni Gweithio'r Goedwig Sir Benfro ym mis Mehefin a mis Awst, adroddwyd ar y ddwy raglen hyn mewn adroddiadau chwarter blwyddyn blaenorol.

c) Rhaglen Mentora Gwirfoddolwyr

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cynhaliaeth bersonol/emosiynol ychwanegol ar gyfer ieuenctid, llawer ohonynt sydd wedi mynychu gweithgareddau Tir Coed, sydd yn dangos diddordeb mewn dysgu mwy o sgiliau coetirol.

Powys:

Bu'r ieuenctid yn parhau gyda'r gwelliannau i safleoedd Ysgol y Goedwig yn yr ardal. Yn ddiweddar buont yn canolbwyntio ar Goed Bolbro ger Abermiwl. Yn anffodus bu presenoldeb y cyfranogwyr yn ysbeidiol yn ystod misoedd iasoer Ionawr a Chwefror ac mae diddordeb y cyn brentisiaid o Gweithio'r Goedwig sydd wedi ymuno â'r prosiect wedi pylu.

Er hyn, mae 3 person ifanc o Wasanaeth Troseddu Ieuenctid Powys wedi ymuno â'r rhaglen yn ddiweddar ac mae eu hymateb i'r gweithgareddau yn dda iawn.

Allbynnau:
Er bod arian prosiect WICKED wedi dod i ben, mae swyddog y GTI eisiau i'w ieuenctid fedru parhau gyda'r sesiynau, ac mae wedi gwneud cais i'r Gronfa Gweithgareddau Dargyfeiriol i'r diben hwn. Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, bydd y sesiynau yn ail ddechrau ym mis Mehefin.

Gobeithia Tir Coed, os bydd tendr Porth Ymgysylltu Powys yn llwyddiannus, y gall y criw hwn fod yn ran o'r rhaglen.

Ceredigion: Coed Tamsin

Dysgwyd sgiliau newydd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys pilio rhisgl er mwyn creu sedd ar gyfer eu cadeiriau gwledig, cynhyrchu golosg a miniogi offer at lefel uwch. Ymunodd person ifanc arall â'r criw dros dro er mwyn rhannu ei brofiadau o waith gof gyda'r gwirfoddolwyr. Bu'r criw yn ei gynorthwyo i adeiladu tyrn polyn traddodiadol tra'i fod ef yn dysgu iddynt hwy sut i greu offer o fetel sgrap; roedd hwn yn brofiad cynhyrchiol a buddiol iawn.

Mae'r gwirfoddolwyr wedi cyflawni'r unedau Agored Cymru canlynol erbyn hyn:

- 'Cyflwyniad i Gynnal a Chadw Ystadau & Sgiliau Cefn Gwlad' – Lefel 1
- 'Cynhyrchion Prysgoed' - Lefel 2 a
- 'Crefft Coed – Gweithio & Gorffen dyluniad Pren Syml' – Lefel 2

Allbynnau:
Er i arian WICKED ddod i ben ar ddiwedd mis Ebrill, mae'r criw yn bwriadu cwrdd yn reolaidd beth bynnag.

Ers yr adroddiad diwethaf, mae un gwirfoddolwr wedi derbyn tystysgrif 200 awr o Wirfoddolwyr y Mileniwm. Mae ei ymroddiad a'i frwdfrydedd llawer tu hwnt i'r lefel â wobrwywyd, erbyn hyn mae wedi cwblhau dros 800 awr o wirfoddoli.

Rhoddwyd cyfle iddo gan Tir Coed i fynychu cwrs llif gadwyn yn ddiweddar (CS30/CS31) ac fe lwyddodd i'w gwblhau yn ddidrafferth; cymaint oedd ei allu fe awgrymodd yr aseswr allanol y dylai'r llanc fynychu cwrs lefel uwch. Roedd hwn yn lwyddiant nodedig i fachgen 16 mlwydd oed!

Cafodd ei enwebu gan Angie ar gyfer categori Cyflawnydd Ifanc Gwobrau Ysbrydoli Cymru, erbyn hyn mae'n un o'r 3 yn y rownd derfynol.

Longwood:

Dechreuwyd prosiect Mentora Gwirfoddolwyr newydd yng nghoed Longwood, Llanbed, gyda 4 person ifanc dan arweiniad Tony Eames.

Mae'r criw wedi bod yn cyflawni nifer o dasgau rheoli coetiroedd, gan gynnwys prysgoedio a snedio, ynghyd â llosgi golosg, gwneud morthwylion pren a meinciau gwledig. Maent wedi bod yn gweithio ar gyfer dwy uned Lefel 1 Agored Cymru:

- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 2 – Cyflwyniad i Reoli Coetiroedd, a
- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 3 – Cyflwyniad i Brosesu Pren

Cyflawnodd un o'r cyfranogwyr 1 uned a phawb arall y ddwy uned.

Mae dau o'r gwirfoddolwyr wedi derbyn eu gwobrau 50 awr o Wirfoddolwyr y Mileniwm yn barod.

Allbynnau:
Bu'r prosiect hwn yn un llwyddiannus, ac o fudd sylweddol i 3 o'r cyfranogwyr. Er hyn, gyda diwedd cyllideb prosiect WICKED, un o'r cyfranogwyr wedi torri ei figwrn ac eraill ynghlwm ag ymrwymiadau allanol, daeth y prosiect i ben ar ddiwedd mis Ebrill.

Sir Benfro:

Gorffennodd prosiect MG Sir Benfro ar ddiwedd mis Mawrth. Arweiniwyd y prosiect gan Dave Hoyle gyda 4 gwirfoddolwr (ymunodd un aelod ychwanegol â'r criw ym mis Ionawr, wedi i un arall ymadael). Bu'r criw yn brysur iawn yn cyflawni tasgau rheoli coetirol, fel cwympo coed a gwella'r lloches yn y goedlan. Bu tri o'r gwirfoddolwyr ar gwrs llif gadwyn. Cyflawnodd dau o'r gwirfoddolwyr wobr 200 awr Gwirfoddolwyr y Mileniwm, a derbyniodd un wobr 100 awr.

Cynigwyd dwy uned Agored Cymru yn ystod y cyfnod hwn:

- Cyfrannu at Waith ar Adeileddau sydd yn Ategol i Ffyrdd Mynediad – Cyflawnodd 3 yr uned hon
  a
- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 3 – Cyflwyniad i Brosesu Pren – Cyflawnodd 2 wirfoddolwr yr uned hon.

Allbynnau:
Mae prosiect gwirfoddoli coed Nant-y-Cwm yn parhau yn annibynnol o Dir Coed, yn ymateb i anghenion y safle, mae yna ddau wirfoddolwr yn mynychu ac mae Dave Hoyle yn rhoddi ei amser am ddim er mwyn arwain y sesiynau. Mae'r Grŵp Cymunedol yn cyrchu arian ychwanegol er mwyn parhau'r prosiect gwirfoddoli.

d) Menter Coed Call

(Ar gyfer ieuenctid 14-16 mlwydd oed sydd wedi, neu mewn perygl o gael eu heithrio o'r ysgol.)

Ceredigion:

Coed Tamsin

Ymunodd 2 gyfranogydd newydd â'r criw yn ystod tymor y Gwanwyn ac maent, ar y cyfan, wedi ymgartrefu yn iawn. Ar hyn o bryd mae yna 5 person ifanc yn y criw; fel y dywedwyd yn yr adroddiad diwethaf, nid oedd un o'r cyfranogwyr yn ymdrechu rhyw lawer ac erbyn hyn mae wedi gadael y prosiect.

Mae'r criw ar fin gorffen dau lyfr gwaith ar gyfer dwy uned Lefel 1 Agored Cymru:

- Cyflwyniad i Brysgoedio; a
- Cyflwyniad i Reoli Ystadau.

Allbynnau:
Bydd y prosiect yn parhau gyda chymorth Adran Cynhwysiant Addysg Ceredigion. Gobeithir y bydd y gynhaliaeth hyn ar gael am gryn amser, ond mae'n dibynnu llawer ar anghenion cyllidebol yr AALl gyfan yn y dyfodol.

Coed Pen yr Allt: Rheoli Coetiroedd a Chefn Gwlad

Criw Dydd Iau – (Blwyddyn 11)

Bu 6 gŵr ifanc yn mynychu'r cwrs trwy gydol y flwyddyn; ac maent wedi bod yn gwella'u sgiliau mewn moddau sydd yn cydweddu â'u dulliau unigol o ddysgu. Mae aeddfedrwydd cynyddol y criw yn dod i'r amlwg ac mae yna gyfeillgarwch gref rhwng y cyfranogwyr, gan greu amgylchedd gynhaliol, ystyrlon a chynhyrchiol ac awyrgylch ymlaciol a llon.
Cyflawnodd pob cyfranogydd Lefel 1 Agored Cymru mewn 'Plygu Perthi' y tymor hwn.

Allbynnau:
Mae tri allan o'r chwech cyfranogydd yn frwd iawn i barhau gyda'r math hwn o waith, ac wedi gofyn am gyfleoedd i brentisiaethu.
Bydd un yn ymuno â'i dad yn gwneud gwaith saer.
Mae un yn defnyddio'r sgiliau a ddysgwyd i helpu ei dad ar y fferm deuluol.
Er ei orchestion amlwg, nid oes yna lwybr clir ar gyfer un aelod o'r criw.

Criw Dydd Mercher – (Blwyddyn 10)

Mae llwyddiant y criw hwn wedi parhau, er iddynt eu labeli yn unigolion mwyaf heriol y prosiect. Bu'r criw yn gweithio ar nifer o gynhyrchion o waith llaw allan o bren irlas, gan gynnwys pegiau pebyll traddodiadol, celfi gwledig syml ac ysgubellau bedw. Maent wedi dysgu sut i ddefnyddio bwyell, hollti a chreu uniadau pren syml.

Buont hefyd yn cwympo coed bychain a'u hollti i'r maint cywir er mwyn creu atalwyr ar gyfer ochrau'r llwybr troed, yn tynnu coed gan ddefnyddio winsh a gefelau coed ac yn paratoi coed tân gan ddefnyddio llifiau tynnu a sgarmes hollti.

Trefnwyd diwrnod hyfforddi arbenigol gyda Stewart Whitehead, crefftwr coed, a fu'n dangos sut i greu ysgubau a rhacanau gwair. Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr greu eu hoffer eu hunain wedyn, gyda chymorth arbenigol.

Allbynnau:

Bydd gweithgarwch y criw hwn yn parhau, gyda'r rhan fwyaf o'r aelodau yn dychwelyd ym mis Medi yn ddisgyblion Blwyddyn 11. Bydd 3 aelod newydd yn ymuno â'r criw, gan greu cyfanswm o 7 cyfranogydd.
Mae dau o'r criw yn frwd ac yn dalentog iawn, ac yn dymuno gweithio tuag at rhyw fath o brentisiaeth yn y dyfodol.

Sir Gaerfyrddin:

Canolfan Dysgu ac Addysgu Mynydd Mawr - Pwll CA3

Bu 14 person ifanc yn cyfranogi yn y gweithgareddau.

Canolbwyntiwyd yn bennaf ar yr uned Lefel 1 Agored Cymru 'Rheoli Ystadau a Sgiliau Cefn Gwlad, trefnwyd a chefnogwyd y gweithgareddau gan Dewi Wagstaff, Ceidwad y Parc Gwledig. Llenwyd amserlen brysur y criw gyda chlirio llystyfiant a ffosydd, adfer llwybrau, plannu a thocio coed, cwympo coed bychain, ffensio a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt, adeiladu blychau adar & biniau ysbwriel.

Roedd yna gyfle i rai o'r criwiau gyfranogi mewn gweithdy helyg gyda Jo Steadman. Roedd y rhain yn llwyddiannus iawn gan roddi cyfleoedd i unigolion brysgoedio'r helyg cyn defnyddio'r gwiail i blethu paneli'r palis.
Bu'r ieuenctid yn mwynhau mas draw ac yn falch iawn o'u gorchestion – gan arddangos eu gwaith cyn mynd â'r paneli adref.

Allbynnau:
Bu'r cyfraddau presenoldeb yn ardderchog a cafodd y gweithwyr a'r myfyrwyr llawer o brofiadau adeiladol.
Mae'r staff yn teimlo yn fwy cyfforddus gyda'r broses o achredu ond, i hyn ddatblygu ymhellach, bydd angen mwy o gymorth arnynt o'u uwch rheolwyr o safbwynt gosod amser naill ochr er mwyn dod i ben â'r gwaith papur.

Mae'r ganolfan eisiau parhau gyda'r ddarpariaeth o wobrau Agored Cymru os yn bosib; trefnwyd cyfarfodydd er mwyn ymchwilio'r posibiliadau o weithio mewn partneriaeth gyda Tir Coed yn y dyfodol.

Mae'r staff wedi dysgu sgiliau ac wedi eu hyfforddi i barhau gyda'r gweithgareddau coetirol; bydd Dewi Wagstaff yn parhau i gynnig cymorth fel Ceidwad ac yn goruchweld pob gwaith ar y safle ym Mynydd Mawr.

Sir Benfro:

Ysgol Penfro

Bu prosiect Coed Call Ysgol Penfro yn cyflawni uned Lefel Mynediad 3 Agored Cymru 'Sgiliau a Thechnegau Craidd ar gyfer Crefft' yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod a Chilgeti. Mae 5 o'r 6 cyfranogydd wedi cwblhau'r uned. Mae'r uned yn achredu'r gwaith a wnaed gan y criw gyda Jo Steadman, yn datblygu eu gwaith helyg ac yn creu cerflun helyg byw o Gob Cymreig. Mae hwn yn gyflawniad ardderchog ar gyfer yr ieuenctid gydag anawsterau dysgu hyn, ac yn adlewyrchu eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i'r

prosiect.

Allbynnau:
Gyda chymorth Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro, bydd y prosiect Coed Call hwn yn parhau am weddill y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae yna gynllun i'r prosiect barhau wedi hyn, ond yng nghoedlan Ysgol Penfro, oherwydd bod disgrifiad swydd Anthony, sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod hyd yn hyn, yn newid wedi gwyliau'r haf.

Ysgol Syr Thomas Picton

Cafwyd tymor llwyddiannus iawn gyda'r criw o 6 person ifanc ar y peilot Egin hwn. Mae 5 o'r criw wedi cyflawni 2 allan o'r 3 uned NOCN â drwyddedwyd gan QCF, hyd at lefel 2:

- Defnyddio & Cynnal a Chadw Offer Gwaith Coed.
- Adnabod Mathau o Bren a Ddefnyddir wrth Adeiladu.

Roedd pob un o'r unedau a drwyddedwyd gan QCF yn lafurus iawn, gyda llawer iawn o waith papur er mwyn tystiolaethu a chyflawni'r asesiad. Oherwydd hyn, treuliwyd llawer mwy o amser na'r disgwyl yn yr ystafell ddosbarth, ac i raddau fe gollwyd naws goedlannol y rhaglen gyfan. Oherwydd na fedrodd y criw gwblhau'r uned olaf, nid oeddent yn medru cyflawni'r Wobr Dilyniant Lefel Dau, ond bydd gan y dysgwyr chwe chredyd o'r ddwy uned iddynt eu gorffen. O ganlyniad i'r peilot hwn, mae Tir Coed wedi penderfynu peidio â defnyddio cymwysterau Agored Cymru sydd wedi eu trwyddedi gan QCF tan bod cymwysterau wedi eu datblygu sydd yn fwy addas ar gyfer eu darparu yn yr awyr agored.

Bu gweithgareddau'r tymor hwn yn cynnwys ymweliad â Theatr Byd Bach yn Aberteifi er mwyn i'r criw weld sut y defnyddiwyd deunyddiau adeiladu cynaliadwy yn adeiledd y theatr, ac ymweliad â choedlan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a choedlan gymunedol er mwyn gweld enghreifftiau o dechnegau rheoli coetiroedd.

Allbynnau:
Daeth cymorth Tir Coed ar gyfer y prosiect hwn i ben ar ddiwedd mis Mawrth. Er hyn, bydd y prosiect yn parhau, gyda chymorth Green Links, hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd a dros y dair mlynedd nesaf. Hefyd, bydd Ceidwad Addysg y Comisiwn Coedwigaeth, Owen Thurgate, yn cynorthwyo Margaret i gynnal sesiynau Ysgol y Goedwig yng ngardd y goedlan gyda disgyblion o flwyddyn 7.

e) - Hyfforddiant Gweithwyr Cynhaliol:

Mae 7 allan o'r 8 cyfranogydd gwreiddiol ar y cwrs hwn wedi cwblhau'r ddau sesiwn asesedig. Y sesiynau hyn oedd y rhan ddiwethaf o gwrs 'Darparu Gweithgareddau Coedlanol' Tir Coed, dan arweiniad Jo Steadman. Mae angen anfon y llyfrau gwaith ar gyfer eu hasesu, ond yn ôl y tiwtor mae'r 7 ohonynt wedi cyflawni 2 uned Lefel 2 Agored Cymru:

- Cynllunio & Darparu Rhaglen Awyr Agored
- Sgiliau Ymarferol mewn Ardaloedd Awyr Agored.

Allbynnau:
Gweithwyr Ieuenctid sydd yn barod yn darparu, neu sydd yn cynllunio ar gyfer darparu, sesiynau coedlanol yw cyfranogwyr yr hyfforddiant hwn, felly bydd buddiannau prosiect WICKED yn parhau dros yr hirdymor.

WICKED

Crynodeb o gyflawniad yn erbyn Targedau Prosiect Peilot WICKED:

ALLBYNAU:

Targed dros 3 mlynedd:	Cyrhaeddiad dros 3 mlynedd:	Sylwadau:
600 person ifanc yn ymwneud â'r Prosiect	Mae **555** person ifanc wedi ymwneud â'r Prosiect Allan o'r rhain mae **219** person ifanc wedi cael mynediad i 2 weithgaredd/prosiect neu fwy.	Er i hyn olygu na gyrhaeddodd Prosiect WICKED y targed, roedd yna fuddiannau mawr ar gyfer yr ieuenctid sydd wedi ymwneud â'r Prosiect dros gyfnod sylweddol – dangosir hyn yn y canrannau uchel o allbynnau a restrir yn y tabl isod. Dychwelodd llawer o'r gofalwyr ifanc i'r gweithgareddau WICKED yn reolaidd. **(mynychodd 195 gofalwr ifanc mwy nag 1 gweithgaredd)** Aeth ieuenctid o brosiectau Coed Call, â fynnai datblygu eu sgiliau ymhellach, ymlaen i fynychu menter Gweithio'r Goedwig a'r rhaglenni Mentora Gwirfoddolwyr. . **(mynychodd 24 person ifanc brosiectau amryfal; 19 PI:- 2 prosiect; 3 PI:- 3 prosiect; 2 PI:- 4 prosiect)**
Hyfforddi **40** Gweithiwr Cynorthwyol	Hyfforddwyd **41** o Weithwyr Cynhaliol & Gweithwyr Ieuenctid	Mwy na'r targed 3 mlynedd
12 set o sesiynau Gweithio'r Goedwig	**15** set o sesiynau	Mwy na'r targed 3 mlynedd
36 gweithgaredd Mês ar gyfer Gofalwyr Ifanc	**94** gweithgaredd Mês	Mwy na dwbl y targed 3 mlynedd
Sefydlu **4** prosiect Coed Call	Sefydlwyd **12** prosiect Coed Call	Tair gwaith y targed 3 mlynedd
Allbynnau ychwanegol	Sefydlwyd **4** prosiect i Wirfoddolwyr	Mewn ymateb i'r gofyn gan ieuenctid i ddatblygu eu sgiliau galwedigaethol ymhellach.

ALLBYNAU:

Targed dros 3 mlynedd:	Cyrhaeddiad dros 3 mlynedd:
Gwellhad mewn hunan hyder a hunan barch ymysg **60%** o'r cyfranogwyr	Dangosodd **87%** o'r cyfranogwyr wellhad yn eu hunan hyder a'u hunan barch
Codi ymwybyddiaeth amgylcheddol **60%** o'r cyfranogwyr	Mynegodd **90%** o'r cyfranogwyr bod eu hymwybyddiaeth amgylcheddol wedi gwella
Gwella iechyd a ll s **60%** o'r cyfranogwyr	Mynegodd **82%** o'r cyfranogwyr wellhad mewn iechyd a ll s
Cynyddu sgiliau gan arwain at well cyfleoedd ym myd gwaith wrth i:	(Ddim yn gymwys ar gyfer Menter Mês).
60% o'r cyfranogwyr ennill achrediad	Mae **71.5%** o'r cyfranogwyr wedi eu hachredu
60% o'r cyfranogwyr gael agwedd adeiladol tuag at ddatblygu gyrfa	Mae **77%** o'r cyfranogwyr wedi dangos agwedd adeiladol tuag at ddatblygu gyrfa
25% o'r cyfranogwyr fynd ymlaen i hyfforddiant pellach neu waith	Mae **48%** o'r cyfranogwyr wedi mynd ymlaen i hyfforddiant pellach neu waith.